



**CFFI
YFC**

CYMRU | WALES

ADRODDIAD EFFAITH CFFI CYMRU 2023





Canolfan CFFI, Llanelwedd
Llanfair ym Muallt, LD2 3NJ



01982 553502



gwybodaeth@yfc-wales.org.uk



NEGES GAN EIN CADEIRYDD HEFIN EVANS A'R PRIF WEITHREDWR MARED JONES



Cafodd CFFI Cymru ei sefydlu yn 1936 fel mudiad ieuenctid wirfoddol yn gweithredu'n ddwy-ieithog drwy Gymru wledig.

Ar hyn o bryd mae bron 6,000 o bobl ifanc rhwng 10 a 28 mlwydd oed yn aelodau o'r mudiad, i gyd ohonynt yn aelodau o rwydwaith o 138 o Glybiau CFFI a 12 Ffederasiwn Sirol.

Mae CFFI Cymru yn fudiad deinamig, ddwy-ieithog sy'n gyraeddadwy i ieuenctid cefn gwlad ac yn creu cyfleoedd i aelodau ddisgleirio. Cryfder y mudiad yw ei strwythur ddemocrataidd, y penderfyniadau i gyd yn cael eu gwneud gan yr aelodau. Mae CFFI Cymru yn ceisio cyfarfod anghenion ieuenctid cefn gwlad drwy amrywiaeth o raglenni addysgiadol, hyfforddiadol a chymdeithasol sy'n annog ymglymiad cymunedol a phryder am yr amgylchedd.

Mae Adroddiad Effaith CFFI Cymru yn arddangos y gwaith gwyh mae'r aelodau yn gwneud drwy Gymru gyfan ac yn canolbwyntio ar y colofnau allweddol canlynol:

- Yr Iaith Gymraeg
- Sgiliau a Chyflogadwyedd
- Iechyd a Lles
- Cynladwyedd Cefn Gwlad



“Yr aelodau yw calon yr adroddiad hwn ac fe hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'r aelodau presennol a chyn-aelodau a gymerodd ran yn yr arolygon a'r astudiaethau achos. Aelodau yw llais y mudiad ac 'roedd eich barn yn allweddol i'r adroddiad. Diolch hefyd i SamKat am drosglwyddo'r adroddiad effaith.

Mae'r adroddiad effaith yn rhoi tystiolaeth o'r gwaith ardderchog a'r gefnogaeth mae CFFI Cymru yn rhoi i bobl ifanc i allu bod yn ffermwyr llwyddiannus, unigolion hyderus, cyfranwyr effeithiol a dinasyddion cyfrifol. Hefyd, yn fwy pwysig mae'r adroddiad yn edrych ar anghenion CFFI Cymru yn y dyfodol.”



PWY YDYM NI A BETH YDYM NI'N EI WNEUD

Mae CFFI Cymru yn fudiad ieuenctid gwledig dwyieithog dynamig a hygyrch sy'n helpu ac yn cynorthwyo pobl ifanc i fod yn ffermwyr llwyddiannus, unigolion hyderus, cyfranwyr effeithiol a dinasyddion cyfrifol.

Caiff CFFI Cymru ei redeg gan ei aelodau; byddant yn cyfranogi'n weithgar ym mhob cam o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch popeth o'r cystadlaethau y dylem eu rhedeg i'r elusennau y dylem eu cefnogi. Mae gennym saith pwyllgor a bydd yr aelodau sy'n rhan ohonynt yn gwneud penderfyniadau strategol ar ran CFFI Cymru – **hwy sy'n gwireddu pethau!**



Mae gennym
bron iawn
**6,000
O AELODAU**
ledled Cymru
mewn
**12
FFEDERASIYNAU
SIROL
A
138 O
GLYBIAU.**

Mae ein
haelodau yn
**10 – 28
MLWYDD OED**
ac mae dros
**3,400
O AELODAU**
wedi cystadlu
yn ein
**96
CYSTADLEUAETH**
ledled Cymru.

Bydd ein
haelodau'n neilltuo
dros
**1.1 MILIWN O
ORIAU**
bob blwyddyn i
GEFNOGI
eu clwb, eu
ffederasiwn sirol,
eu cymuned a'r
Gymru wledig
trwy ddysgu,
datblygu, cystadlu
a gwirfoddoli.

Caiff dros
**200 O
DDIGWYDDIADAU,
CYSTADLAETHAU**
a
CHYFLEOEDD
i wirfoddoli eu
CEFNOGI
gan yr aelodau bob
blwyddyn.

Y CYNGOR
â 70 aelod, y
Cyngor sy'n
llywio cyfeiriad
CFFI Cymru at y
dyfodol.

**CYLLID A
RHEOLI**
ag 19 aelod, bydd y
pwyllgor yn cadw llygad
barcud ar unrhyw beth sy'n
ymwneud ag arian a'r gwaith
o redeg CFFI Cymru.

CYSTADLAETHAU
â 28 aelod, bydd y pwyllgor
hwn yn penderfynu pa
gystadlaethau difyr a
chyffrous y dylem eu rhedeg.

**DIGWYDDIADAU
A MARCHNATA**
â 21 aelod, bydd y pwyllgor hwn
yn ystyried pa ddigwyddiadau y
dylid eu cynnal a'u cefnogi, a sut
ddylai CFFI Cymru hyrwyddo ei
hun.

**FFORMW
IEUENCTID**
ag 16 aelod, mae'r
pwyllgor hwn yn
cynrychioli safbwyntiau
aelodau ieugaf CFFI
Cymru.


**MATERION
GWLEDIG**
â 27 aelod, bydd
y pwyllgor hwn yn
ymdrin â dulliau'r
CFFI o gefnogi
cymunedau gwledig.

RHYNGWLADOL
ag 19 aelod, bydd y pwyllgor
hwn yn penderfynu pa
rannau o'r byd y bydd
aelodau'r CFFI yn ymweld â
hwy.

Mae aelodau wedi dweud wrthym ni fod CFFI Cymru yn cefnogi'r Gymraeg fel a ganlyn:



“MAE'N CYNNIG CYFLE I BOBL IFANC DDEFNYDDIO'R GYMRAEG MEWN SAWL GWAHANOL Ffordd, ER ENGHRAIFFT, DRAMA. EFALLAI NA FYDDENT WEDI YSTYRIED CYFRANOGI MEWN GWEITHGAREDD TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG ODDI ALLAN I'R CFFI. MAE'N HOLLOL WAHANOL I DDYSGU CYMRAEG YN YR YSGOL.”



“RWY'N MYNYCHU CYFARFODYDD ERS PAN OEDDWN I'N 15 AC RWY'N DDIGON HYDERUS I LEISIO FY MARN YN YSTOD CYFARFODYDD. RWY'N GWYBOD SUT DDYLID RHEDEG CYFARFODYDD A SUT I GYNNIG ADBORTH I ERAILL SY'N RHAN O'R Tîm.”

MAE DROS
75%

O'R AELODAU WEDI DWEUD WRTHYM NI FOD Y CYFLE I FOD YN AELOD O CFFI CYMRU YN EU CEFNOGI EU HIECHYD A'U LLES TRWY:



MAE CFFI CYMRU WEDI CEFNOGI IECHYD A LLESIANT AELODAU TRWY:



GYNNIG LLAWER O GYFLEOEDD IDDYNT BETH BYNNAG FO'U DONIAU

EU GALLUOGI I DEIMLO Y GALLANT

FOD YN HWY EU HUNAIN

FEL RHAN O CFFI CYMRU




HYDERUS

NEU GYFLEOEDD A CHYFRANOGI MEWN GWEITHGAREDDAU DIFYR A CHYFTEILLGAR

"HEB Y CFFI, BUASAI FY MYWYD YN LLAWER TAWELACH, MAE'R FFERMWYR IFANC YN HOLLBWYSIG I MI, RYDYCH YN GWYBOD BOD CYFLEOEDD AR GAEL BOB AMSER I WNEUD PETHAU A CHWRDD Â PHOBL."

MAE DROS
70%


O'R AELODAU WEDI DWEUD WRTHYM FOD Y CYFLE I FOD YN AELOD O CFFI CYMRU YN CEFNOGI CYNALIADWYEDD YNG NGHEFN GWLAD TRWY:



MAE'R CFFI YN CEFNOGI CYMUNEDAU GWLEDIG TRWY:

DOD Â BUSNESAU A CHYMUNEDAU GWLEDIG YNGHYD MEWN DIGWYDDIADAU TRWY GYDOL Y FLWYDDYN

SICRHAU BOD GAN AELODAU'R SGILIAU SY'N OFYNNOL I GYNORTHWYO EU CYMUNEDAU A DEFNYDDIO GWASANAETHAU LLEOL A SICRHAU BOD ARIAN YN AROS YN YR ECONOMI WLEDIG.



"BYDD AELODAU'R CFFI YN SICRHAU BOD PETHAU'N DIGWYDD, BYDDANT YN TREFNU DIGWYDDIADAU, MAENT YN AELODAU O BWYLLGORAU, BYDDANT YN DERBYN SWYDDI YN EU CYMUNED LEOL AC YN SICRHAU BOD BYWYD YN WELL YN EU CYMUNEDAU."



Mae ein pwyslais ar broses ddemocrataidd sy'n galluogi'r aelodau i wneud penderfyniadau a llunio cynlluniau, ac yna, sicrhau bod pethau'n digwydd.

Mae ein haelodau wedi dweud wrthym ni y ceir pum prif golofn sy'n ategu pob agwedd o waith CFFI Cymru, a dyma'r meysydd y byddwn yn parhau i roi sylw iddynt.

BYDD EIN 6,000 O AELODAU, AR LEFELAU CLYBIAU A FFEDERASIYNAU SIROL AC AR Y LEFEL GENEDLAETHOL, YN CEFNOGI POB UN O'R COLOFNAU HYN. →

DYFODOL CFFI CYMRU

1

Cefnogi a thyfu'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

2

Cefnogi a galluogi ein cymunedau gwledig lleol a bod yn rhan hollbwysig ohonynt.

3

Datblygu sgiliau a chyflogadwyedd ein haelodau trwy ddigwyddiadau, cystadlaethau, hyfforddiant a datblygu.

4

Cefnogi iechyd a lles ein haelodau trwy roi cyfleoedd iddynt fod yn hwy eu hunain, cwrdd â ffrindiau a rhoi cynnig ar bethau newydd.

5

Parhau i ehangu'r aelodaeth ledled Cymru trwy apelio at ystod eang o bobl ifanc o bob cefndir.



Caiff CFFI Cymru ei redeg gan yr aelodau er budd yr aelodau. Mae eu lleisiau'n amlwg yn yr adroddiad hwn ar effaith drwyddo draw.

PAM MAE BOD YN AELOD O CFFI CYMRU YN BWYSIG I CHI?

SUT FUASECH CHI'N DISGRIFIO'R PROFIADAU Y BYDDWCH YN EU CAEL YN Y CFFI?

CYFFROUS DIDDOROL
DYSGU hyder FFRINDIAU
RHAGOROL PROFIAD
cyfleoedd
sgiliau CYMUNED
cystadlaethau cymdeithasol
tenu HWYL addysgiadol
mwynhaol

her gwahanol
COFIADWY RHAGOROL
bythgofiadwy cyffrous
CYFFROUS
HWYL UNIGRYW
NEWID BYWYD DIDDOROL
ADDYSGIADOL



BLWYDDYN YN

CFFI CYMRU

MAE 3,400 O AELODAU
WEDI CYSTADLU YN EIN 96
CYSTADLEUAETH LEDLED
CYMRU

BYDD AELODAU YN NEILLTUO
1.1 MILIWN O ORIAU BOB
BLWYDDYN I GEFNOGI EU CLWB,
EU FFEDERASIWN SIROL, EU
CYMUNED A'R GYMRU WLEDIG

DROS 200 O DDIGWYDDIADAU,
CYSTADLAETHAU A CHYFLEOEDD I
WIRFODDOLI YN Y FFEDERASIYNAU
SIROL BOB BLWYDDYN.

MEDI

Bydd Blwyddyn Aelodaeth y CFFI yn cychwyn ar 1 Medi ac yn dod i ben ar 31 Awst. Ym mis Medi, bydd clybiau'n ailgychwyn am y flwyddyn trwy gynnal sesiynau i drefnu eu rhaglenni a chyfarfodydd ar gyfer aelodau newydd. Cynhelir Cyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol mewn clybiau a Ffederasiynau Sirol, ac ynddynt, etholir swyddogion i lenwi'r swyddi amrywiol, er enghraifft, Cadeirydd, Ysgrifennydd/Ysgrifenyddes, Trysorydd, Ysgrifennydd/Ysgrifenyddes y Cofnodion ac Arweinwyr Clybiau. Cynhelir CCB CFFI Cymru ar benwythnos, a bydd aelodau etholedig y Ffederasiynau Sirol yn rhan o Gyngor CFFI Cymru. Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol CFFI Cymru yn dynodi man cychwyn tîm democrataidd newydd o aelodau yn cymryd yr awenau ac yn arwain y sefydliad.

HYDREF

Bydd rhaglenni'r Clybiau a'r Ffederasiynau Sirol yn eu hanterth a bydd llawer o'r Ffederasiynau yn cynnal digwyddiadau megis barnu stoc a'u Heisteddfod Sirol.

Cynhelir hyfforddiant i gynorthwyo aelodau i gyflawni eu rolau swyddogion a'u cynorthwyo i redeg clwb a chyfarfodydd.

Trwy farnu stoc, bydd aelodau yn meithrin sgiliau dethol da byw ar gyfer y diwydiant da tewion/cigyddiaeth. Bydd taith astudio Pwyllgor Materion Gwledig CFFI Cymru yn cael ei gynnal, a bydd aelodau yn dod ynghyd i ymweld â ffermydd a meithrin gwybodaeth a sgiliau y gallant eu defnyddio ar eu ffermydd eu hunain.

TACHWEDD

Cynhelir Eisteddfod CFFI Cymru, sy'n cynnig cyfleoedd i aelodau berfformio yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn ystod eang o gystadlaethau megis canu, llefaru, sgetshis a meimio.

Eisteddfod CFFI Cymru yw'r unig Eisteddfod ddwyieithog o'r fath yng Nghymru. Cynhelir yr Eisteddfod gan Ffederasiwn Sirol gwahanol bob blwyddyn, gan aryneilio rhwng Ffederasiynau'r Gogledd a Ffederasiynau'r De.

Byddwn hefyd yn cynnal dwy gystadleuaeth y gellir ymgeisio'n uniongyrchol i gyfranogi ynddynt, sef cystadlaethau Gwartheg Bîff Ifanc a'r Prif Gynhyrchydd Wyn, a gynhelir yn Ffair Aeaf Cymru. Maent yn gyfle gwych i ffermwyr ifanc arddangos eu sgiliau ceidwad da byw a dysgu gwybodaeth werthfawr yn y sector amaethyddol.

RHAGFYR

Bydd CFFI Cymru yn rhedeg Rhaglen Ryngwladol bob blwyddyn, a chynhelir y diwrnod dethol ym mis Rhagfyr. Gall aelodau ddewis o blith y teithiau amrywiol sydd ar gael ac ymgeisio amdanynt.

Trwy gyfrwng proses o ymgeisio a chynnal cyfeliadau, pennir pwy fydd yn cael cynnig lle yn y teithiau amrywiol. Mae'r rhaglen yn galluogi aelodau i deithio mewn amgylchedd diogel a chael amrywiaeth o brofiadau diwylliannol.

Bydd Clybiau a Ffederasiynau Sirol yn cynnal Gwasanaethau Carolau ledled Cymru a byddant yn canu Carolau yn eu cymunedau lleol fel rhan o'u gwaith cymunedol di-baid a'u hymdrechion diddiwedd i godi arian at elusennau trwy gydol blwyddyn y CFFI.

IONAWR

Cynhelir y Gynhadledd Materion Gwledig yn ystod mis Ionawr. Mae'n gynhadledd diwrnod cyfan sy'n cynnig cyfle i aelodau gynnull gyda phobl o'r un anian ac ehangu eu gwybodaeth ynghyd pynciau amaethyddol amrywiol a dysgu trwy wrando ar siaradwyr gwadd, cyfranogi mewn ymweliadau a thrafodaethau panel. Bydd y gynhadledd yn caniatáu i CFFI Cymru hyrwyddo gwaith y Pwyllgor Materion Gwledig, yn cynnwys blaengareddau megis Menter Wŷn CFFI Cymru.

Mae Menter Wŷn CFFI Cymru yn bartneriaeth rhwng Dunbia (Llanybydder), Sainsbury's a CFFI Cymru. Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyfle i aelodau CFFI Cymru gyflenwi eu cig oen Cymreig i siopau Sainsbury's yng Nghymru am bris uwch trwy gydol y flwyddyn.

Nod y cynllun yw cydweithio â chwmni prosesu ac adwerthwr blaengar i ddenu aelodau CFFI Cymru sy'n cynhyrchu cig oen i ddod yn gyflenwyr ac i sicrhau fod y Ffermwyr Ifanc ar flaen y gad yn y diwydiant. Yn y pen draw, mae'r fenter yn canolbwyntio ar greu cadwyn gyflenwi gynaliadwy, i helpu i gefnogi dyfodol Cymru wledig.

CHWEFROR

Bydd y clybiau yn brysur yn paratoi at rowndiau Sirol Cystadleuaeth yr Wyl Adloniant ym mis Chwefror.

Trwy gyfrwng nosweithiau ymarferion, dysgu sgriptiau, creu gwisgoedd ac adeiladu setiau, mae hyn yn ffordd wych o ddod â chlybiau a'r gymuned ynghyd. Bydd llawer o glybiau yn cynnal cyngherddau yn eu neuaddau cymunedol lleol gan agor y drysau i groesawu rhwydwaith cefnogwyr ehangach y CFFI.

Yna, bydd y Ffederasiynau Sirol yn cynnal eu digwyddiadau (dros sawl noson yn achos rhai) trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd cynulleidfaoedd yn tyrru i theatrau a neuaddau mawr ble bydd llawer o chwerthin a mwynhad.

MAWRTH

Cynhelir Gwledd Adloniant CFFI Cymru bob mis Mawrth, a cheir cystadlaethau Drama, Pantomeim ac Adloniant yn eu tro, a bydd yn amlygu doniau o bob cwr o Gymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle unigryw i lawer o egin actorion ac actoresau i berfformio ar lwyfan proffesiynol ble ceir y cyfleusterau diweddaraf a chymorth gan reolwyr llwyfan profiadol.

Yn ogystal â chyfle i aelodau fwynhau'r adloniant, ceir cystadlu brwd rhwng aelodau sy'n cynrychioli eu Ffederasiwn Sirol yng nghystadlaethau Aelod Hŷn ac Aelod Iau y flwyddyn ar lefel Cymru.

Cynhelir Diwrnod Siarad Cyhoeddus CFFI Cymru ar ddiwedd Mawrth. Mae'r Wyl Siarad Cyhoeddus yn cynnig cyfle i aelodau amlygu eu sgiliau siarad cyhoeddus mewn cystadlaethau megis dadlau, siarad mewn ciniawau a darllen.

EBRILL

Cynhelir y Diwrnod Gwaith Maes ym mis Ebrill a bydd yn cynnwys cystadlaethau sydd â chysylltiadau agos iawn â'r diwydiant amaeth a sgiliau gwledig.

Trwy gyfrwng y digwyddiad hwn, bydd aelodau'n meithrin y sgiliau sy'n ofynnol i weithio'n ddiogel mewn gyrfa wledig ac amlygu eu sgiliau ym meysydd barnu stoc, codi ffensys, ac effeithlonrwydd â diogelwch.

Bydd y Diwrnod Gwaith Maes yn symud o amgylch Cymru, a bob blwyddyn, bydd un o'n 12 Ffederasiwn Sirol yn croesawu'r digwyddiad. Bydd cynnal digwyddiad yn cynnig cyfle i Ffederasiynau Sirol ac aelodau ysgwyddo cyfrifoldeb am y digwyddiad a dysgu amrywiaeth o sgiliau trefnu.

MAI

Bydd Clybiau a Ffederasiynau Sirol yn ymroddi i baratoi at eu Raliâu blyneddol yn ystod mis Mai, a chynhelir y Raliâu hyn ledled Cymru yn ystod Mai a Mehefin.

Cynhelir nifer o gystadlaethau mewn Rali, ac maent yn gystadlaethau dileu sy'n galluogi Ffederasiynau Sirol i ddethol cystadleuwyr i'w cynrychioli yn Sioe Frenhinol Cymru ac yn rowndiau terfynol Ffederasiwn Cenedlaethol Clybiau Ffermwyr Ifanc. Mae'r Rali yn ddiwrnod difyr sy'n rhoi pwyslais ar sgiliau, ac mae'n cynnig rhywbeth i bob aelod 10 – 28 mlwydd oed.

Bydd CFFI Cymru yn agor eu drysau yn ystod Ffair Wanwyn Frenhinol Cymru er mwyn amlygu arlwy'r sefydliad. Bydd y mudiad yn cynnig gweithgareddau i blant iau ac yn hyrwyddo'r CFFI a'r diwydiant amaeth.

MEHEFIN

Bydd aelodau CFFI Cymru yn rhoi prawf ar eu ffitrwydd corfforol yn ystod Diwrnod Chwaraeon blynyddol CFFI Cymru.

Bydd y cystadlaethau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn a byddant yn profi sgiliau'r aelodau. Mae cystadlaethau'r gorffennol wedi cynnwys popeth o bêl-rwyd i 'ffrisbi eithaf'.

Cynhelir y Raliâu Sirol olaf yn ystod y mis hwn, ac wedi hynny, bydd yr holl sylw ar baratoadau at Sioe Frenhinol Cymru.

Bydd Sioe Frenhinol yr Ucheldir yn cynnig cyfle i aelodau flasgu diwylliant yr Alban, a bydd CFFI Cymru yn anfon tîm i'w cynrychioli yn y cystadlaethau barnu stoc yno. Bydd hynny'n cynnig cyfle i aelodau gynrychioli eu gwlad, meithrin sgiliau a chwrdd ag wynebau newydd.

GORFFENNAF

Sioe Frenhinol Cymru yw uchafbwynt y flwyddyn i lawer o aelodau'r CFFI. Cynhelir peth wmbredd o gystadlaethau yn ystod wythnos y sioe, er enghraifft, cneifio, dawnsio, barnu stoc a gosod blodau.

Bydd Canolfan CFFI yn ferw o brysurdeb yn ystod y sioe, a daw aelodau, cefnogwyr a'r cyhoedd i weld y gweithgareddau.

Agorir drysau Canolfan CFFI bob dydd i groesawu aelodau presennol a chyn-aelodau. Yn ein hystafell gynadledda, cynhelir llawer o ddigwyddiadau gan amrywiaeth o gwmnïau, cyrff ariannu, rhanddeiliaid a phartneriaid. Bydd CFFI Cymru yn gwneud cyfraniad allweddol at Sioe Frenhinol Cymru gan ddarparu adloniant ar y llwyfan yn ein pabell fawr ac yng Nghylch y Gwartheg ar adegau penodol. Bydd ein huwch swyddogion yn cyfranogi'n flaenllaw mewn panelau amrywiol a byddwn yn cael ein cynrychioli mewn llawer o dderbyniadau.

AWST

Awst yw diwedd blwyddyn y CFFI, ond bydd yn gyfnod prysur i Glybiau a Ffederasiynau Sirol serch hynny. Bydd llawer o aelodau yn cynorthwyo â digwyddiadau amrywiol yn eu cymunedau, er enghraifft, garddwesti yn y pentrefi a sioeau amaethyddol, a byddant yn gwneud cyfraniad blaenllaw at waith trefnu.

Cynhelir her Cadeirydd CFFI Cymru a bydd cymaint ag y bo modd o aelodau yn cyfranogi. Mae'r heriau dros y blynyddoedd wedi cynnwys beicio, heicio, cerdded, teithiau tractorau a pharasiwtio. Diben yr holl heriau yw codi arian at elusennau a dod ag aelodau ynghyd.

Bydd mwyafrif yr aelodau a fydd wedi llwyddo i gael lle ar daith sy'n rhan o'n Rhaglen Ryngwladol yn teithio yn ystod mis Awst. Bydd grwpiau o bobl ifanc yn cyfranogi mewn amrywiaeth o deithiau ledled y byd. Teithir i wledydd a lleoliadau megis yr Unol Daleithiau, Ynys Manaw, Iwerddon, Ynysoedd Erch, Milan a Berlin.

EIN CLYBIAU

Roeddem yn dymuno cyfleu darlun o weithgarwch ein 138 o glybiau ledled Cymru – dyma rywffaint o enghreifftiau...

YCHYDIG O WYBODAETH AM Y CLWB...



CFFI ABERGWAUN

Mae gan CFFI Abergwaun 68 o aelodau a byddant yn cynnal eu cyfarfod wythnosol yn Neuadd Bentref Matri. Dywed aelodau'r clwb eu bod yn **weithgar**, yn llawn **cyffro** ac yn **ddawnus**!

Bydd ymweliadau a gweithgareddau ar y cyd â chlybiau eraill yn wastad yn uchafbwyntiau. Heb os, roedd Dydd y Farn yng Nghaerdydd ac ymweliadau â Pharc Dŵr Wild Lakes a Maes Ymarfer Golff yn ddigwyddiadau hynod gofiadwy i'n haelodau, Cawsom hefyd noson wych ar y cyd â CFFI

Hermon pan aethom i draeth Trefdraeth i chwarae rownderi, nofio yn y môr a mwynhau ysgytlaeth Morfa Milk.

PA WEITHGAREDDAU CODI ARIAN YDYCH CHI WEDI'U CEFNOGI?

Dros y blynnyddoedd, rydym ni wedi codi symiau mawr o arian at elusennau amrywiol. Yn ystod 2022-23, rydym ni wedi dewis cefnogi elusen Ambiwylans Awyr Cymru. Rydym hefyd wrthi'n ailadeiladu neuadd ein clwb, sy'n golygu bod ein hymdrechion i godi arian hefyd yn cynorthwyo â'r prosiect hwn. Fe wnaethom ni gynnal digwyddiadau bingo Nadolig a Phasg llwyddiannus iawn eleni, a chodwyd bron iawn £1,400 rhwng y ddau ddigwyddiad. Fe wnaethom ni godi arian yn ein cyngerdd, gan amlygu ein doniau perfformio a'n cystadleuwyr yn yr Eisteddfod. Fe wnaethom ni hefyd gynnal cwis tafarn gan sicrhau cefnogaeth

wych gan ein cymuned leol.

Codwyd £454 yn ystod y noson.

Yn ogystal â'r digwyddiadau codi arian rhagorol hyn,

rydym ni hefyd wedi codi arian at ein helusen ddethol, sef Ambiwylans Awyr Cymru, ac at neuadd y clwb, trwy drefnu bore coffi, canu carolau, a chynnal taith gerdded nodedig â chŵn yn ystod cyfnod y Nadolig. Mae Sioe a Dawns Abergwaun yn gamp codi arian sylweddol iawn i ni. Y llynedd, codwyd dros £12,000 yn sgil y diwrnod, ac rydym yn gobeithio y gwnaiff hynny ddigwydd eto eleni. Edrychwn ymlaen at drefnu llawer o ddigwyddiadau codi arian ychwanegol i gefnogi Ambiwylans Awyr Cymru a Phrosiect Neuadd CFFI Abergwaun yn y dyfodol agos iawn.

SUT YDYCH CHI WEDI CEFNOGI EICH CYMUNEDAU LLEOL?

Yn ystod y flwyddyn gystadlu hon, rydym ni wedi ymdrechu'n galed i gefnogi ein cymuned. Ar ddechrau'r flwyddyn, fe wnaethom ni lansio ein hapêl esgidiau ymarfer i gasglu 'esgidiau dal adar' i'w hailddefnyddio a'u hailgylchu. Casglwyd 43 pâr o esgidiau ymarfer, esgidiau astro ac esgidiau rygbi a rhoddwyd hwy i ysgolion a chlybiau lleol: Ysgol Wdig, Ysgol Glannau Gwaun a Chlwb Rygbi Abergwaun ac Wdig. Mae'n bosibl bod yr esgidiau hyn wedi helpu hyd at 43 o deuluoedd, ac yn y pen draw, fe wnaethant alluogi pobl ifanc i gyfranogi mewn chwaraeon.

Yn ystod cyfnod y Nadolig, fe wnaethom ni gasglu eitemau a roddwyd gan aelodau, arweinwyr, rhieni a chyfeillion y clwb i greu 'Hamperi ar gyfer y Gwasanaethau Brys'. Paratowyd yr hamperi hyn er mwyn diolch i'n gwasanaethau brys yn ein cymunedau lleol. Rhoddwyd naw hamper i orsafoedd y gwasanaeth ambiwlans, y gwasanaeth tân ac achub, yr heddlu a'r bad achub, ac i'r ganolfan iechyd a'r filfeddygfa.



Cawsom wahoddiad gan ysgol leol, sef Ysgol Casblaidd, i gynorthwyo â'u Diwrnod 'Ground Force'. Aethom ati i baentio, trwsio ffensys, plethu helyg ac ailgylchu paledi i gynorthwyo i dacluso'r ysgol.

Yn ystod penwythnos y Pasg, danfonwyd pecynnau anrhegion i bum cartref gofal yn ein cymuned. Fe wnaeth yr aelodau greu nythod siocled a chacennau 'rocky road' y Pasg yn y clwb, ac anfonwyd blodau hefyd.

Yn fwy diweddar, trefnwyd gweithgaredd casglu sbwriel cymunedol o amgylch pentref Mathri, a chyfranogodd criw o aelodau. Diben hyn oedd cynorthwyo Cyngor Cymuned Matri a chyfrannu at gynllun 'Operation Green' Ffederasiwn Cenedlaethol y Clybiau Ffermwyr Ifanc. Yn ystod ymarferion at y Rali, fe wnaethom gasglu bwyd ci a bwyd cath a roddwyd gan ein haelodau, ac mae'r bwyd hwn wedi'i roi i'r Banc Bwyd Anifeiliaid Anwes gan Cariad Pet Therapy. Diben cefnogi'r ymgyrch hwn oedd diwallu anghenion y sawl sy'n gwneud eu gorau glas i gefnogi ac aros gyda'u hanifail anwes.

Rydym hefyd wedi helpu yn ystod Eisteddfod Sirol leol yr Urdd, ble gwnaethom dreulio'r diwrnod yn stiwardio'r drysau. Fe wnaethom roddi tlws ar ran CFFI Abergwaun i'n hysgol uwchradd leol (Ysgol Bro Gwaun) i'w chyflwyno yn ystod eu noson wobrwyo i fyfyrwr sy'n astudio Amaethyddiaeth ar lefel TGAU. Rydym hefyd yn ymdrechu i helpu neuadd ein clwb. Rydym wedi bod yn paentio'r



adeilad newydd, a phan fydd yn barod, byddwn yn dychwelyd i baentio rhagorol. Glanhau arosfannau bysys a phaentio'r orsaf dân yw digwyddiadau nesaf ein calendr.

SUT YDYCH CHI'N CEFNOGI'R GYMRAEG?

Rydym yn glwb dwyieithog ac rydym yn ymfalchïo'n fawr yn hynny. Gellir clywed y Gymraeg yn ein clwb bob amser. Mae mwyafrif ein haelodau yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac mae eraill yn defnyddio'r Gymraeg fel eu hail iaith. Oherwydd hyn, defnyddir y Gymraeg yn rheolaidd yn ystod gweithgareddau'r clwb, yn cynnwys cyfarfodydd y clwb, sgysiau anffurfiol, wrth gystadlu, mewn digwyddiadau cymunedol ac yn ystod ymweliadau. Mae hefyd yn rhan bwysig o'n platfformau cyfryngau cymdeithasol; byddwn bob amser yn ymdrechu i gynnig sylwadau neu gyhoeddi postiadau yn Gymraeg. Rydym yn ymfalchïo'n fawr fod ein clwb ni'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd!

**GWEITHGAR
CYNHYRFUS
DAWNUS**



CFFI Sir Gâr



CFFI Ceredigion



CFFI Dyffryn Tanat



CFFI Betws Yn Rhos

YCHYDIG O WYBODAETH AM Y CLWB...



CFFI LLANLLWNI

Mae gan **Cffi Llanllwni** 69 o aelodau a byddant yn cynnal cyfarfodydd wythnosol yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni (y 'Church Room', fel y'i gelwir yn lleol). Dywed aelodau'r clwb eu bod yn **weithgar**, yn **gystadleuol** ac yn **ddiwyd**!

HOFF WEITHGAREDD NOSON CLWB:

Ar noson gyntaf y flwyddyn aelodaeth, byddwn yn cynnal noson 'Selsig a Seidr' i groesawu aelodau newydd. Byddwn yn chwarae gemau ac yn mwynhau cŵn poeth, a bydd yr aelodau hŷn yn cael seidr a bydd yr aelodau iau yn cael diodydd ysgafn!

LLWYDDIANNAU CODI ARIAN:

Byddwn yn cynnal nifer o ddigwyddiadau i godi arian at y clwb, er enghraifft, cyngherddau a helfeydd drysor, ac eleni, byddwn yn cynnal te a thaith tractorau i ddathlu pen-blwydd y clwb yn 80. Byddwn hefyd yn codi arian at nifer o elusennau. Codir dros £1,000 yn flynyddol trwy ganu carolau o amgylch yr ardal leol, ond ein sioe flynyddol (sy'n cael ei threfnu'n llwyr gan y clwb) yw ein prif ddigwyddiad codi arian, a rhoddir yr holl enillion i elusennau. Yn 2022, cyflwynwyd cyfanswm o £9,852 a rannwyd rhwng Apêl Arch Noa a Tir Dewi.



EICH GWAITH YN Y GYMUNED:

Mae'r Clwb yn weithgar iawn yn y gymuned. Un o brif ddigwyddiadau cymunedol y flwyddyn yw'r sioe flynyddol a drefnir gan y clwb. Ceir ystod



o gystadlaethau at ddant pawb, yn cynnwys sioe gŵn hwyliog, a cheir cystadlu brwd am rosedau yn yr adrannau defaid, garddwriaeth, sioe wartheg fideo, coginio a chwaraeon. Ceir

adloniant gyda'r hwyr hefyd. Mae'r clwb wedi cynnal y digwyddiad hwn ar ddydd Llun Gŵyl Banc mis Awst ers 1985, gan gychwyn trwy gynnal ymrysonfeydd cŵn defaid. Trwy gydol y flwyddyn, bydd y clwb yn cynnig digwyddiadau i ddod â'r gymuned ynghyd ac yn cefnogi sefydliadau lleol eraill megis ysgol gynradd y pentref.

HOFF GYSTADLAETHAU


Bydd aelodau'r clwb yn mwynhau pob mathau o gystadlaethau ac maent yn fodlon rhoi cynnig ar bopeth! Mae'r gystadleuaeth meimio yn yr Eisteddfod yn hollbwysig i'n haelodau, ac mae'r cystadlaethau llwyfan megis yr hanner awr adloniant hefyd yn uchafbwyntiau penodol! Mae gan y clwb dimau siarad cyhoeddus brwdfrydig a bydd yr aelodau yn mwynhau chwaraeon timau.

SUT FYDDWCH CHI'N DEFNYDDIO'R GYMRAEG?

Cynhelir holl gyfarfodydd a gweithgareddau'r clwb trwy gyfrwng y Gymraeg.



GWEITHGAR CYSTADLEUOL GWEITHIO'N GALED



YCHYDIG O WYBODAETH AM Y CLWB...



CFFI PONTSIÂN

Mae gan CFFI Pontsiân 60 o aelodau a byddant yn cynnal cyfarfodydd wythnosol yn Neuadd D H Evans ym mhentref Pontsiân. Dywed yr aelodau mai **Cwmnïaeth, Cymuned a Chystadleugarwch (yn ystyr orau'r gair)** yw hanfod eu clwb.

HOFF WEITHGAREDD NOSON CLWB:

Mae cyfarfodydd ein clwb yn amrywiol iawn - weithiau, byddwn yn cynnal gweithgareddau megis cwisiau, gemau a chreu crefftiau, ac ar adegau eraill, efallai byddwn yn

ymweld â fferm neu fusnes lleol a mynd i fowlio deg, ac yn ystod yr haf, byddwn hyd yn oed yn mynd i Gei Newydd i chwarae gemau ar y traeth. Trefnir rhaglen y flwyddyn gan Ysgrifennydd neu Ysgrifenyddes Rhaglen y Clwb â chymorth gan swyddogion eraill y clwb (aelodau hŷn gan amlaf). Bob blwyddyn, ceisir sicrhau cydbwysedd yn y rhaglen rhwng elfennau addysgiadol a phethau hwyliog.

Ein hoff ddigwyddiad, neu'r digwyddiad pwysicaf, yw'r 'Noson Gymdeithasol'. Cynhelir y digwyddiad hwn ar ddechrau pob blwyddyn aelodaeth y CFFI (ym mis Medi) a bydd yn cynnwys amrywiaeth o gemau (dan do a thu allan) a cheir bwffe i orffen y noson. Mae'n ddigwyddiad 'torri'r garw' ar gyfer aelodau newydd a rhai sydd eisoes yn aelodau, ac yn gyfle iddynt brofi'r hwyl a gaiff aelodau'r CFFI.

LLWYDDIANNAU CODI ARIAN:

Bob blwyddyn, ac yn union fel llawer o'r CFFI eraill ledled Cymru, bydd aelodau CFFI Pontsiân yn dewis elusen i'w chefnogi (neu elusennau i'w cefnogi) yn ystod y flwyddyn aelodaeth honno. Codir arian trwy gyfrwng digwyddiadau amrywiol yn ystod y cyfnod hwnnw. Maent yn cynnwys Gwasanaeth Diolchgarwch ym mis Tachwedd a chanu Carolau ym mis Rhagfyr (pan fydd aelodau'n teithio o

amgylch ardaloedd Pontsiân, Capel Dewi a Llandysul yn canu carolau o ddrws i ddrws). Y Nadolig diwethaf, yn ystod ein noson Canu Carolau, llwyddom i godi dros £1,000, er budd tair elusen: Cymdeithas Alzheimer Cymru, Bowel Cancer UK, a CFFI Pontsiân ei hun. Bydd y Clwb hefyd yn cynnal gweithgareddau codi arian unigol o bryd i'w gilydd. Er enghraifft, yn ystod cyfnod 2021-22, fe wnaethom gynnal gweithgaredd gwrthio gwelyau 15 milltir o amgylch ardal Pontsiân a chodi bron iawn £5,000 at Uned Cemothorapi Ysbyty Glangwili, Ffoaduriaid o Wcráin a CFFI Pontsiân.



EICH GWAITH YN Y GYMUNED:

Mae'r gymuned yn bwysig iawn i CFFI Pontsiân ac mae'n rhan anhepgor

o'n gweithgareddau. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, y CFFI sy'n cynnal y gymuned, ac ym mhentref Pontsiân, ble mae'r ysgol, siop a'r swyddfa bost leol oll wedi cau yn ystod blynyddoedd diweddar, rydym ni fel aelodau ac arweinwyr CFFI Pontsiân yn credu mai ein dyletswydd ni yw sicrhau bod pethau'n parhau. Dyna pam y byddwn yn parhau i gynnal digwyddiadau gwahanol trwy gydol y flwyddyn sy'n cynnwys y gymuned gyfan. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnwys Noson Guto Ffowc yn Neuadd Gymuned Pontsiân bob mis Tachwedd, canu carolau yn ystod cyfnod y Nadolig a dau gyngerdd adloniant – un ym mis Tachwedd wedi Eisteddfodau CFFI Ceredigion a CFFI Cymru, ac un ym mis Mawrth ar ôl y Gystadleuaeth Celfyddydau Perfformio.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, yn ystod pandemig COVID-19, CFFI Pontsiân oedd un o'r CFFI cyntaf yng Nghymru a Lloegr i gynnig gwasanaethu'r gymuned, gan gasglu presgripsiynau meddygol, mynd i siopa am fwyd a chyflenwadau eraill i bobl fregus a rhai oedd yn ynysu. Fe wnaethom ni hefyd gynnal ras hwyl rithiol a chodi dros £8,000 at Unedau Gofal Dwys Ysbyty Glan Gwili (Caerfyrddin) ac Ysbyty Bronglais (Aberystwyth) - lleolir y ddau

ysbyty yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

HOFF GYSTADLAETHAU:

Mae aelodaeth CFFI Pontsiân yn amrywiol o ran oedran, chwaeth a chefnidir. Un o fanteision pennaf mudiad y CFFI yw'r ffaith ei fod yn cynnig rhywbeth at ddant pawb, pa un ai a ydych yn ffermwr ai peidio. Mae Pontsiân yn credu'n gryf yn yr arwyddair canlynol: 'Nid oes yn rhaid i chi fod yn ffermwr i fod yn Ffermwr Ifanc'.

Bydd ein haelodau yn mwynhau amrywiaeth o gystadlaethau, yn cynnwys cystadlaethau celfyddydau perfformio (yr Eisteddfod, Pantomeim/Drama/Hanner Awr Adloniant a chystadlaethau Siarad Cyhoeddus), chwaraeon (Rygbi, Nofio ac Athletau) a chystadlaethau mwy gwledig a thraddodiadol megis barnu stoc a chodi ffensys. Mae'n wych bod mudiad y



gwneud, a byddwn ni fel CFFI yn gwneud ein gorau glas i geisio hwyluso hyn. Mae'r cystadlaethau hyn yn helpu pobl ifanc cefn gwlad i feithrin sgiliau newydd, cael profiadau newydd a magu hyder.

SUT FYDDWCH CHI'N DEFNYDDIO'R GYMRAEG?

Mae'r Gymraeg yn rhan anhepgor o weithgareddau CFFI Pontsiân. Rydym yn byw mewn ardal Gymraeg gymharol gref, ac mae mwyafrif ein haelodau (os nad pob un) yn siarad y Gymraeg fel mamiaith, felly mae bron iawn pob un o'n gweithgareddau (o gyfarfodydd y clwb i gystadlaethau) yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Ysgrifennir cofnodion y cyfarfodydd yn Gymraeg hefyd.

Nid yw'r ffaith ein bod ni'n CFFI cyfrwng Cymraeg yn golygu bod ein drysau ar gau i'r sawl nad ydynt yn deall yr iaith. Rydym yn ceisio bod mor gynhwysol ag y bo modd a gall aelodau nad ydynt yn siarad Cymraeg fwynhau ystod eang o weithgareddau y mae mudiad y CFFI yng Ngheredigion (y mae Pontsiân yn rhan ohono) yn ei chynnig.

CFFI yn caniatáu i'w aelodau ddewis pa weithgareddau maent yn dymuno'u



CFFI Trecastell



CFFI Wentwood



CFFI Maldwyn



CFFI Brycheiniog

CYMUNED
CWMNIAETH
CYSTADLEUGARWCH



STEVE HUGHSON

PRIF WEITHREDWR BLAENOROL SIOE FRENHINOL
CYMRU

Magwyd Steve ar fferm gwartheg bîff a defaid ym Mhowys a bu'n aelod o CFFI y Bontnewydd ar Wy, yr oedd ei dad yn helpu i'w redeg. Roedd yn aelod gweithgar a gychwynnodd gystadlu pan yn 13 mlwydd oed, hyd nes iddo adael am Lundain pan yn 18 oed. Yn benodol, roedd yn mwynhau'r cyfleoedd drama, y siarad cyhoeddus, y cystadlaethau darllen a'r barnu stoc (gwartheg bîff a buchod godro) a chafodd gyfleoedd i gystadlu yn Sioe Frenhinol Cymru ac yn Sioe Smithfield yn Llundain. Pan oedd yn 18 mlwydd oed, cyflwynodd gais i ymaelodi â Heddlu Llundain a bu'n rhaid iddo ddal trê'n o Bowys i Lundain ar ei ben ei hun i fynd i gael cyfweliad. Teimlai'n nerfus iawn, ond fe wnaeth ei brofiadau yn y CFFI sicrhau bod ganddo'r hyder a'r sgiliau i'w alluogi i lwyddo yn y cyfweliad a daeth yn un o swyddogion Heddlu Llundain. Wedi gyrfa 30 mlynedd yn plismona yn Heddlu Llundain a Heddlu Dyfed Powys, ymddeolodd yn 2013 ag yntau'n Brif Uwch Arolygydd. Wedi hynny, daeth yn Brif Weithredwr Sioe Frenhinol

Cymru. Mae Steve yn sicr bod y sgiliau a ddatblygodd trwy gyfrwng y CFFI wedi cyfrannu'n helaeth iawn at y broses ddethol lwyddiannus honno.

Pa wahaniaeth mae CFFI Cymru wedi'i wneud i'ch bywyd?

“Wrth edrych yn ôl, heb y CFFI, ni fuaswn wedi magu'r sgiliau a'r hyder oedd yn ofynnol i ddal trê'n i Lundain ar fy mhen fy hun i gael cyfweliad i ddod yn swyddog yn Heddlu Llundain. Trwy gyfrwng y mudiad, magais yr hyder oedd yn ofynnol i fynd ger bron y panel dethol a gwneud argraff gadarnhaol. Cefais gymuned o ffrindiau â diddordeb tebyg yn sgil y mudiad hefyd, ac rwy'n dal i gadw mewn cysylltiad â llawer ohonynt hyd heddiw. I bobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, mae grŵp cymdeithasol o'r fath a'r ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned yn hollbwysig. Rwy'n cydnabod erbyn hyn cymaint mae'r CFFI wedi'i roi i chi; efallai na fyddwch yn sylweddoli hynny ar y pryd.”



SAMUEL KURTZ

AELOD O'R SENEDD DROS ORLLEWIN CAERFYRDDIN
A DE SIR BENFRO

Bu Samuel yn aelod o CFFI Brawdy am gyfnod byr, gan gychwyn pan oedd yn 13 mlwydd oed, a symud i CFFI Abergwaun pan oedd oddeutu 15 mlwydd oed. Cyfranogodd ym mwyafrif y gweithgareddau gan gynnwys siarad cyhoeddus, tynnu'r gelyn, y rali, y diwrnod chwaraeon a drama. Bu Samuel yn Drysorydd Clwb, Ysgrifennydd Clwb, yn aelod o Fforwm Ieuenctid, Pwyllgor Cystadlaethau a Phwyllgor Gwaith y Ffederasiwn Sirol, yn aelod o Is-bwyllgor Cystadlaethau CFFI Cymru, ac yn Gadeirydd Ffederasiwn Sir Benfro.

Pa wahaniaeth mae CFFI Cymru wedi'i wneud i'ch bywyd?

“Mae'n sicrhau y bydd gennych hyder sy'n eich galluogi i ymdrin ag unrhyw sefyllfa, boed hynny'n siarad cyhoeddus, cyflwyno eich hun i rywun sy'n wyneb newydd, neu ymdopi â sefyllfa newydd – bydd yn eich paratoi yn sgil y lefel honno o fedrusrwydd a hyder i ymdrin â sefyllfaoedd. Mae'n cynnig sylfaen wych i chi – byddwch yn gwybod sut ddylid cynnal cyfarfodydd, ysgrifennu cofnodion, cadw trefn ar gyllid a chyfrifon a chynnal dyddiadur. Mae cael strwythur o'r fath pan yn ifanc yn wych o ran datblygiad personol a byddwch yn gwneud hynny mewn amgylchedd cymdeithasol ac yn dysgu heb sylweddoli eich bod yn gwneud hynny. Byddaf yn defnyddio'r holl sgiliau a ddysgais yn y CFFI yn fy rôl feunyddiol erbyn hyn.”





HILARY JONES

PRIF WEITHREDWR, BRO MYRDDIN



Hilary yw Prif Weithredwr Cymdeithas Dai Bro Myrddin. Ymaelododd â'r CFFI pan yn 11 mlwydd oed ac roedd ei theulu cyfan yn cyfranogi yn y mudiad. Roedd ei chwirydd yn aelodau, a'i thad oedd un o sylfaenwyr Clwb Capel Iwan yn Sir Gaerfyrddin. Roedd Hilary yn dymuno cyfranogi a rhoi cynnig ar bopeth – mae hi wrth ei bodd yn gwneud pethau newydd. Gadawodd yr ysgol pan yn 16 mlwydd oed ac fe wnaeth cymaint o'r sgiliau y gwnaeth eu meithrin yn y CFFI eu helpu â'i gyrfa. Daeth yn un o reolwyr cyntaf Cymdeithas Adeiladu Nationwide nad oedd wedi cyfranogi yn y Cynllun Rheolwyr dan Hyfforddiant. Yna, newidiodd ei gyrfa a gweithiodd i ddod i'r brig yn y sector tai. Dywed Hilary mai'r hyder a'r sgiliau y gwnaeth eu datblygu trwy gyfrwng y CFFI, a'i dealltwriaeth o'r broses lywodraethu yn benodol (y gwnaeth hi ddatblygu trwy gyfrwng ei rolau arwain yn y CFFI) sy'n gyfrifol am gyfran helaeth iawn o'i llwyddiant. Cafodd Hilary sawl rôl yn y ffederasiwn sirol, gan gynnwys Cadeirydd y Ffederasiwn, ac yna, cafodd sawl rôl ar lefel Cymru, ac uchafbwynt hynny oedd dod yn Gadeirydd CFFI Cymru, ac fe wnaeth gynrychioli Cymru ar lefel y Ffederasiwn Cenedlaethol wedi hynny. Mae Hilary dal yn ymwneud â'r mudiad 50 mlynedd

ar ôl dod yn aelod; hi yw Cadeirydd y Pwyllgor Personél a Thâl.

Sut brofiad oedd bod yn aelod o CFFI Cymru?

“Cwrdd â chymaint o bobl, byddwn yn mynd i rywle a byddaf yn dweud fy mod i wedi bod yno gyda'r CFFI – y ffrindiau y daethoch i'w hadnabod ledled Cymru. Bûm i'n ddigon ffodus i gael mynd i'r cynadleddau Ewropeaidd. Dod i adnabod llawer o bobl o'r un anian a rhoi rhywbeth yn ôl. Roeddwn i'n arfer cynorthwyo ysgol leol trwy helpu disgyblion i ymarfer at gyfweiliadau a gallech adnabod y plant hynny oedd yn ymwneud â mudiadau megis y CFFI, oherwydd roedd ganddynt lawer o hyder.

Pa wahaniaeth mae CFFI Cymru wedi'i wneud i'ch bywyd?

Bydd y sgiliau rhyngbersonol, y perfformio a siarad ger bron tyrfa yn sicrhau bod gennych yr hyder i fynegi eich barn yn ystod cyfarfodydd – rydych wedi arfer cael ymatebion cadarnhaol a negyddol a byddwch yn dod yn gyfarwydd â hynny. Byddwch yn dysgu sut i ennill a cholli, sy'n rhywbeth mor bwysig mewn bywyd – mae'n rhoi cadernid hanfodol i chi.”



LEANNE DAVIES

CADEIRYDD FFEDERASIWN SIROL CFFI
BRYCHEINIOG, GWEINYDDWR IECHYD A LLES
ANIFEILIAID CYSWLLT FFERMIO YN LANTRA CYMRU

Mynychodd Leanne CFFI Troedriwddalar yn Ffederasiwn Brycheiniog. Ymuno â'r clwb yn 2004 pan oedd hi'n 12 mlwydd oed a chychwynnodd gystadlu, a gorffennodd yn 2022. Cafodd sawl rôl yn y Clwb: Ysgrifenyddes y Rhaglen Gymdeithasol, Swyddog Presenoldeb, Trysorydd a Chadeirydd y Clwb. Ar lefel y Ffederasiwn Sirol: Cadeirydd y Fforwm Ieuenctid, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Datblygu, Swyddog Datblygu'r Gymraeg, Arweinydd y Fforwm Ieuenctid a Chadeirydd y Ffederasiwn. Bu'n aelod o nifer o bwyllgorau CFFI Cymru a'r Ffederasiwn Cenedlaethol. Ar lefel CFFI Cymru, bu'n aelod o'r Pwyllgor Cyllid a'r Fforwm Ieuenctid, ac mae'n aelod o Gyngor CFFI Cymru ar hyn o bryd, Ar lefel y Ffederasiwn Cenedlaethol, mae'n aelod o'r Pwyllgor Aelodaeth a Marchnata ynghyd â'r Cyngor Cenedlaethol. Cyfranogodd Leanne mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, cystadlaethau siarad cyhoeddus, drama, chwaraeon, amrywiaeth o gystadlaethau'r rali (yn cynnwys llawysgrifen, llunio poster, coginio, rasys cyfnewid a gemau'r cenedlaethau), cystadlaethau'r Eisteddfod a chystadlaethau hyrwyddo. Ar lefel y clwb, bu'n trefnu gweithgareddau codi arian, noson Guto Ffowc, cystadlaethau cneifio cyflym, nosweithiau

bingo, cwisiau, bowllo 10, nosweithiau gemau, cerfio pwmpenni, gweithgareddau Nadoligaidd a llawer iawn rhagor.

Pa wahaniaeth mae CFFI Cymru wedi'i wneud i'ch bywyd?

“Trwy fod yn aelod o'r CFFI, datblygais fy hyder a dysgais sgiliau gydol oes. Dysgais siarad Cymraeg fel ail iaith, ac roedd y cyfle i ymarfer siarad Cymraeg yn help llaw enfawr i mi. Cefais gyfleoedd i ddod i adnabod ffrindiau newydd a chyfleoedd i deithio, er enghraifft, Sioe Frenhinol yr Ucheldir y llynedd. Pan yn aelod o'r Fforwm Ieuenctid, ymwelais â Llangrannog a Glan-llyn, a chyfranogais mewn ymweliadau materion gwledig â ffermydd a busnesau amrywiol. Roedd yr ymweliadau hyn yn wych o ran rhwydweithio ond roeddent yn addysgiadol iawn hefyd. Rwyf wedi creu atgofion gydol oes yn y CFFI, ac wedi cyfranogi mewn cystadlaethau a digwyddiadau hyfforddiant, ac ni fuaswn wedi cael y cyfle i wneud hynny heb y CFFI. Rwyf wedi ymgymryd â rolau swyddogion, ac mae hynny wedi fy helpu i ddysgu sut i redeg cyfarfodydd ac ysgrifennu cofnodion, a dysgu sut i ymddwyn yn ffurfiol, ac mae hynny wedi fy helpu o ran fy ngyrfa.”



KATE MILES

RHEOLWR ELUSEN SEFYDLIAD DPJ

(ELUSEN IECHYD MEDDWL Y BYD AMAETH YNG NGHYMRU)

Bu Kate yn aelod o Glwb Castell-nedd a'r Cylch ym Morgannwg, ac mae hi'n un o arweinyddion Clwb Gŵyr erbyn hyn. Daeth yno pan oedd hi'n 13 neu'n 14 a gadawodd am ychydig pan oedd hi'n 19 mlwydd oed tra'r oedd hi yn y brifysgol, a dychwelodd pan yn 25 mlwydd oed fel aelod a oedd yn cystadlu, a llwyddodd hynny i aildanio ei brwdfrydedd ynghylch y CFFI. Cafodd Kate sawl swydd, gan gychwyn fel Ysgrifenyddes y Cofnodion, ac yn sgil hynny, datblygodd sgiliau da iawn ar gyfer ymddiriedolwyr, ar gyfer ei swydd bresennol yn arwain elusen, ac i fod yn gyfreithwraig. "Roedd gorfod darllen y cofnodion yn y clwb yn rhywbeth arswydus i ddechrau, ond deuthum i arfer â'r gwaith a magu hyder yn sgil hynny" Yna, aeth ati i ymgymryd â rolau eraill: Ysgrifenyddes y Clwb, Cadeirydd y Clwb, Cadeirydd y Ffederasiwn Sirol, Cadeirydd Pwyllgor Gweithgareddau a Rhyngwladol CFFI Cymru. "Bûm i hefyd yn aelod o bwyllgorau Ffederasiwn Cenedlaethol y CFFI a mynychais Gynulliad Cyffredinol RYE. Bydd hi'n anodd peidio â gwneud rhagor ar ôl i chi gychwyn cyfranogi: Ni allwn i sefyll o'r neilltu; roeddwn i'n dymuno gwneud gwahaniaeth, bod yn rhan o bethau a lleisio fy marn".

Pam mae cael CFFI yng Nghymru yn bwysig yn eich tyb chi?

“Mae'r CFFI yn hollbwysig; byddai pethau'n flêr mewn rhannau penodol o Gymru heb y CFFI.

Mae wedi datblygu arweinwyr ein cymunedau lleol, ein gwirfoddolwyr a hyd yn oed rhywfaint o wleidyddion. Cyfarfodydd y CFFI oedd fy nghyfle cyntaf i ddysgu am lywodraethu da. Mae ynysigrwydd cymdeithasol yn broblem enfawr, ac yn fy swydd i, byddwn yn gweld pa mor ynysig yw pobl. Mae'r CFFI yn cynnig cyfle gwyb i bobl ddod ynghyd a meithrin cysylltiadau, yn ogystal â gwirfoddoli. Ni fydd rhai pobl ifanc hyd yn oed yn sylweddoli bod eu gwirfoddoli yn helpu i ddod â'r cymunedau hynny ynghyd. Rwy'n byw mewn ardal wledig iawn ar hyn o bryd a bydd y CFFI yn dod â phobl ifanc ynghyd i fwynhau a dysgu ar yr un pryd, a heb y mudiad, ni fuasent yn cael y cyfleoedd hyn. Gallant fod yn hwy eu hunain mewn amgylchedd diogel a helpu'r gymuned leol trwy wirfoddoli a chynnal digwyddiadau. Fel rhywun nad yw'n siarad Cymraeg fel mamiaith, fe wnaeth fy Nghymraeg wella'n sylweddol yn sgil bod yn aelod o'r CFFI oherwydd roeddwn i'n cael cyfleoedd i ymarfer. Ar ôl dod yn un o swyddogion CFFI Cymru, roedd yn rhaid i mi allu siarad rhywfaint o Gymraeg. Fe wnaeth traddodi areithiau yn Gymraeg ennyn ymdeimlad o falchder ynof i. Rwy'n gallu siarad Cymraeg fel rwy'n gallu oherwydd y CFFI ac mae hynny'n fy helpu'n feunyddiol â fy rôl bresennol. Mae'r CFFI yn helpu'r Gymraeg i ffynnu. Mae'r CFFI hefyd yn annog pobl ifanc i ysgwyddo cyfrifoldeb, ystyried syniadau newydd a dod yn ffermwyr a dinasyddion y dyfodol.”





CENNYDD JONES,


DARLITHYDD YN ADUAN GWYDDORAU BYWYD
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Ymunodd Cennydd â CFFI Pontsiân yng Ngheredigion pan oedd yn 13 mlwydd oed, ac mae'n dal yn aelod ag yntau'n 28 mlwydd oed erbyn hyn. Bydd ei gyfnod fel aelod yn dod i ben yn Awst 2023. Cyfranogodd mewn cystadlaethau megis barnu stoc a'r Eisteddfod, ac yn sgil y CFFI, teithiodd i dalaith Colorado ac i Ogledd Iwerddon. Cafodd rolau Cadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd Rhaglen y Clwb, a bu'n Ffermwr Ifanc y Flwyddyn yng Ngheredigion ac yn Aelod Hŷn y Flwyddyn CFFI Cymru. Mae'n Ddarlithydd yn Adran Gwyddorau Bywyd Prifysgol Aberystwyth ar hyn o bryd a bydd yn dal i gynorthwyo ar fferm y teulu.

Pam mae cael CFFI yng Nghymru yn bwysig yn eich tyb chi?

“ Mae'r CFFI yn hollbwysig, yn enwedig i gymunedau gwledig. Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at darged o un filiwn o siaradwyr y Gymraeg erbyn 2050, ac mae gan y CFFI rôl allweddol o ran datblygu'r Gymraeg. Yn ein Ffederasiwn Sirol lleol, byddwn yn cynnal digwyddiadau cyfrwng Cymraeg yn ei theatr leol, a gwerthir 240 o docynnau bob nos am 5 noson. Pobl leol sy'n cefnogi adloniant cyfrwng Cymraeg yw'r bobl hyn, ac ni fuasai hyn yn digwydd heb y CFFI.

Mae'r CFFI yn cefnogi materion gwledig ac yn dod â chriw amrywiol o bobl ynghyd ledled y sir. Ni fuasem gyda'n gilydd heb y CFFI – y CFFI sy'n datblygu'r gymuned gymdeithasol leol. Mae bywyd yn gallu bod yn ynysig iawn i bobl ifanc mewn cymunedau gwledig. Rydym wedi sicrhau buddion sylweddol yn sgil cydweithio trwy gyfrwng y CFFI ag elusennau megis sefydliad DPJ sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. ”



SIAN ELERI


FFERMWR A GWRAIG FUSNES

Ymunodd Siân â Chlwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Edw yn Ffederasiwn CFFI Maesyfed pan oedd hi'n 10 mlwydd oed, ac mae'n aelod ers 15 mlynedd. Cyfranogodd Siân mewn rhaglen gystadlaethau eang ac amrywiol, cafodd gyfleoedd i gwrdd ag wynebau newydd, bu'n aelod o'r Is-bwyllgor Materion Gwledig, a chafodd gyfleoedd i gymdeithasu â ffrindiau. Cyfranogodd Siân yn yr holl weithgareddau a oedd ar gael! Gwnaeth hynny ar lefelau'r Clwb a'r Ffederasiwn Sirol, yn cynnwys y diwrnod chwaraeon, barnu stoc, cyfarfodydd y clwb a gweithgareddau codi arian. Cyfranogodd yn niwrnod gwaith maes, diwrnod chwaraeon, diwrnod barnu stoc a rali'r Ffederasiwn Sirol.



Pa wahaniaeth mae CFFI Cymru wedi'i wneud i'ch bywyd?

“ Fe wnes i fagu hyder trwy gyfranogi yn y cystadlaethau darllen iau a'r siarad cyhoeddus, yn cynnwys y gystadleuaeth ddadlau ar y lefelau canolraddol a hŷn. Mae hynny wedi fy nghynorthwyo â chyfweliadau am swyddi ac am le mewn prifysgol. Cefais griw o ffrindiau gydol oes yn y CFFI. Yn sgil y mudiad, rwyf wedi datblygu cymaint o sgiliau y gallaf eu defnyddio yn fy mywyd beunyddiol, er enghraifft, barnu stoc, cyrsiau hyfforddi, cymorth cyntaf, coginio, blodau, canu, dawnio, hyfforddiant gan y DBS, siarad cyhoeddus, llunio CVs a hyfforddiant i baratoi at gyfweliadau. Mae wedi caniatáu i mi feithrin cysylltiadau â'r diwydiant amaethyddol a sicrhau nawdd a bod yn rhan hanfodol o'n cymunedau a'n hardaloedd gwledig. Mae gennyf atgofion gwych a ffrindiau am oes yn sgil y mudiad. Mae bywyd gymdeithasol gweithgar yn hanfodol er budd iechyd meddwl pobl yng nghefn gwlad, a fy uchafbwynt pennaf oedd dod yn ail yn y gystadleuaeth arwerthu ar gyfer aelodau o Gymru a Lloegr ar lefel y Ffederasiwn Cenedlaethol. ”





Canolfan CFFI,
Llanelwedd, Llanfair ym
Muallt, LD2 3NJ



01982 553502



gwybodaeth@yfc-wales.org.uk

